

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD







## ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2022-23





# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgor | 3 |
| Cylch Gorchwyl y Pwyllgor | 4 |
| Aelodau'r Pwyllgor 2022-23 | 5 |
| Gweithgareddau'r Pwyllgor | 6 |
| Y flwyddyn nesaf | 15 |
| Dod i'r Pwyllgor | 15 |
| Cysylltu â ni | 15 |


Caru·Love Ceredigion

# RHAGAIR GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR

Gwnaeth Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 hi'n ofynnol i bob Cyngor Sir a Chyngor Bwrdeistref Sirol sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a bu'n fraint imi gael fy ethol i rôl Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn dilyn yr Etholiadau Lleol yn 2022.

Mae gwaith y Pwyllgor wedi canolbwyntio ar sicrhau bod anghenion a gofynion yr Aelodau yn cael eu diwallu a bod y trefniadau priodol ar waith i gefnogi Aelodau wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol gyntaf y weinyddiaeth hon, rydym wedi canolbwyntio ar anghenion datblygu a hyfforddi'r Aelodau newydd ac rydym wedi parhau â'r gwaith a wnaed yn ystod y ddwy flynedd flaenorol gan weithredu'r newidiadau a ddaeth i rym yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Bydd y gwaith o adolygu'r ddeddfwriaeth hon yn parhau ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r dogfennau canllaw sydd ar hyn o bryd ar ffurf drafft.

Bu'r 12 mis diwethaf yn rhai hynod o brysur gan fod yn werthfawr ac yn addysgiadol ar yr un pryd. Sicrhawyd bod gan yr holl Aelodau, y Cynghorwyr newydd a'r rhai a ddychwelodd, y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i wneud penderfyniadau anodd yn ystod cyfarfodydd y Cyngor ac wrth gynrychioli eu cymunedau a darparu cymorth iddynt.

Mae'r Aelodau wedi addasu'n arbennig o dda i'r trefniadau gweithio hybrid a hynny oherwydd yr holl gymorth a hyfforddiant a ddarparwyd gan Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd.


Hoffwn estyn fy niolch a'm gwerthfawrogiad i aelodau'r Pwyllgor am eu hamser, eu hymroddiad a'u cymorth. Hefyd, mae nifer o swyddogion wedi cefnogi gwaith y Pwyllgor a hoffwn ddiolch iddynt oll am eu parodrwydd i wneud hynny, ac am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth barhaus.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried nifer o faterion yn y dyfodol gan gynnwys parhau i sicrhau bod sylw yn cael ei roi i anghenion a gofynion yr Aelodau, sicrhau bod y cyfleusterau yn Siambr y Cyngor yn briodol ar gyfer cyfarfodydd hybrid a cheisio datrysiadau TGCh i'r Aelodau.

Y Cynghorydd Elizabeth Evans
Cadeirydd Pwyllgor
Gwasanaethau Democrataidd
Cyngor Sir Ceredigion
2022/23



**Y Cynghorydd Elizabeth Evans**
Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd



**Y Cynghorydd Gareth Lloyd**
Is-gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

# CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR

**Cylch Gorchwyl Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd**

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol benodi Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Yn ystod y cyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf 2012, cytunwyd ar y cylch gorchwyl fel a ganlyn:

Swyddogaethau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yw:

- Cyflawni swyddogaeth yr awdurdod lleol o ran dynodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
- Cadw golwg ar y ddarpariaeth o ran staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau ei bod yn ddigonol ar gyfer dyletswyddau'r swydd
- Paratoi adroddiadau i'r cyngor llawn am y materion hyn, o leiaf unwaith y flwyddyn
- Ystyried amser y cyfarfodydd, a gwneud argymhellion i'r Cyngor
- Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad yr Aelodau.

**Aelodaeth**
Bydd y Pwyllgor yn cynnwys chwe Aelod a benodir gan y Cyngor.

**Cadeirydd**
Caiff y Cadeirydd ei benodi gan y Cyngor a bydd yn gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd fwrdeistrefol yn olynol (yn unol ag Erthygl 5.2, Rhan 2 y Cyfansoddiad).

**Cyfethol**
Nid yw'r Mesur yn rhoi pwerau i'r Pwyllgor gyfethol unigolion i'r Pwyllgor.

**Is-bwyllgorau**
Caiff y Pwyllgor benodi is-bwyllgorau yn ôl y gofyn a dirprwyo swyddogaethau iddynt.

Y Pwyllgor fydd yn penodi Cadeirydd unrhyw is-bwyllgor.

**Dod i gyfarfodydd y Pwyllgor i ateb cwestiynau**
Mae gan y Pwyllgor (ac unrhyw is-bwyllgor) bwer i fynnu bod unrhyw rai o Aelodau neu Swyddogion y Cyngor yn dod i'w gyfarfodydd i ateb cwestiynau, a gall wahodd unrhyw un arall y mae'n dymuno ei wahodd hefyd. Os bydd gofyn i'r Aelodau neu'r swyddogion ddod i gyfarfod, rhaid iddynt ateb unrhyw gwestiwn, oni bai ei fod yn gwestiwn y byddai ganddynt hawl i wrthod ei ateb mewn llys barn.

**Mynediad at wybodaeth**
Mae Rheolau Mynediad at Wybodaeth y Cyngor yn berthnasol i drafodion y Pwyllgor, fel y'u nodir yn Nogfen B Rhan 4 y Cyfansoddiad.

**Pa mor aml fydd y pwyllgor yn cyfarfod?**
Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith yn ystod unrhyw flwyddyn fwrdeistrefol. Gellir cynnull cyfarfod o'r Pwyllgor hefyd os bydd y Cyngor llawn yn penderfynu y dylid gwneud hynny, neu os bydd o leiaf draean o aelodau'r Pwyllgor yn galw am gyfarfod.

Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal pan fydd angen.

**Canllawiau Llywodraeth Cymru**
Rhaid i'r Pwyllgor roi sylw i ganllawiau Gweinidogion Cymru pan fydd yn cyflawni ei swyddogaethau.

**Adroddiadau Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd**
Rhaid i'r Pwyllgor ystyried unrhyw adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd cyn pen tri mis. Yn yr un modd, rhaid i'r Cyngor llawn ystyried unrhyw adroddiad a wneir gan y Pwyllgor cyn pen tri mis.

# AELODAU'R PWYLLGOR

**Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 6 o aelodau ac mae'n wleidyddol gytbwys. Yn 2022/23, cafodd y Pwyllgor ei gadeirio gan y Cynghorydd Elizabeth Evans. Mae'r Aelodau wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu gwaith Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.**

Cadeirydd



Y Cynghorydd Elizabeth Evans
Democratiaid Rhyddfrydol
Presenoldeb 2/3

Is-gadeirydd



Y Cynghorydd Gareth Lloyd
Annibynnol
Presenoldeb 3/3



Y Cynghorydd Endaf Edwards
Plaid Cymru
Presenoldeb 3/3



Y Cynghorydd Gwyn James
Annibynnol
Presenoldeb 3/3



Y Cynghorydd Caryl Roberts
Plaid Cymru
Presenoldeb 2/3



Y Cynghorydd Mark Strong
Plaid Cymru
Presenoldeb 1/3

## Dysgu a Datblygu

Dechreuodd y gwaith o baratoi ar gyfer trefniadau dysgu 2022/23 ym mis Hydref 2021 pan ystyriodd y Pwyllgor y Fframwaith ar gyfer Datblygu Aelodau a'r disgrifiadau diwygiedig o rolau Aelodau Etholedig.

Ym mis Mawrth 2022, ystyriodd y Pwyllgor fersiwn ddrafft o Raglen Sefydlu'r Aelodau a oedd wedi'i diwygio i gynnwys y newidiadau yr oeddem yn eu rhagweld yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Cafodd y rhaglen ei chymeradwyo a gwnaeth yr Aelodau hefyd gydnabod rôl arweinwyr y grwpiau o ran cefnogi'r broses sefydlu ar gyfer yr Aelodau newydd.

Rhoddwyd y rhaglen hyfforddi ar waith ar y dydd Llun cyntaf ar ôl canlyniadau'r Etholiad.

Cafodd y rhaglen ddysgu ei darparu mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys y canlynol:

- Wyneb yn wyneb
- Hyfforddiant drwy drefniadau mynychu o bell / hybrid
- E-ddysgu
- Gweithdai
- Profiadau ymarferol
- Cymorth un-i-un

**Wyneb yn wyneb**
Cafodd y digwyddiadau hyfforddi cychwynnol, gan gynnwys y sesiynau am y 'Cod Ymddygiad' a'r 'Cyflwyniad i'r Cyngor' eu cynnal yn Siambr y Cyngor yn Aberaeron. Roedd hyn yn gyfle i'r Aelodau newydd ddod yn gyfarwydd â'r gwahanol drefniadau a'r dechnoleg a oedd yn cael ei rhoi ar waith. Hefyd, roedd yn gyfle iddynt gwrdd â Chynghorwyr eraill a Swyddogion arweiniol.

**Trefniadau mynychu o bell / hybrid**
Darparwyd rhan fwyaf yr hyfforddiant drwy'r dull hwn, gan ei fod yn caniatáu i'r Aelodau weld dogfennau ar wahanol sgriniau ar yr un pryd. Hefyd, roedd hyn yn gost-effeithiol ac roedd yn cyfrannu at darged y Cyngor o leihau ein hôl troed carbon.

**E-ddysgu**
Ar hyn o bryd, mae tua 33 o gyrsiau ar gael ar lwyfan e-ddysgu Ceredigion. Mae nifer o'r rhain wedi'u targedu'n benodol at y Cynghorwyr. Serch hynny, mae rhai Cynghorwyr wedi dewis cwblhau pob un o'r cyrsiau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Ceredigion.

**Gweithdai**
Trefnwyd gweithdai gyda sefydliadau allanol a gwasanaethau mewnol er mwyn darparu gwell dealltwriaeth i'r Aelodau o natur weithredol y gwasanaethau a rhoi'r cyfle iddynt ofyn cwestiynau manwl a chynnig ffyrdd eraill o weithredu.

**Profiad Ymarferol**
Rhoddwyd y cyfle i'r Aelodau gymryd rhan yn y 'Profiad Bws Dementia'. Hefyd, gwnaeth rhai o'r Cynghorwyr gymryd rhan yn y 'Profiad Bws Awtistiaeth', gan wneud eu trefniadau eu hunain i ymuno â'r hyfforddiant hwn.

**Cymorth un-i-un**
Darparodd staff TGCh, CLIC a'r Gwasanaethau Democrataidd gymorth un-i-un i'r Aelodau ynghylch defnyddio ap Modern.gov, cael mynediad at ddogfennau, marcio dogfennau, creu nodau tudalen, ac ati.

Bwriad Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yw adolygu'r rhaglen hyfforddi maes o law gan nodi unrhyw orgyffwrdd â darparwyr hyfforddiant eraill e.e. yr hyfforddiant a ddarperir i Lywodraethwyr yr Ysgolion, mewn ymgais i barhau i wella'r cymorth a ddarperir i'r Aelodau.

Mae sampl o'r cyrsiau a ddarperir ar gael ar y dudalen nesaf:

# DYSGU A DATBLYGU

## GWEITHGAREDDAU'R PWYLLGOR

### Dysgu a Datblygu

- Cod Ymddygiad
- Cyflwyniad i'r Cyngor
- Diogelu Gwybodaeth a Data
- Rôl a Chyfrifoldebau Aelodau Cabinet gan gynnwys gwneud penderfyniadau yn effeithiol
- Rôl a Chyfrifoldebau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau
- Hyfforddiant Rheoli Datblygu i bob Aelod
- Rôl a Chyfrifoldebau Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Rôl a Chyfrifoldebau Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol
- Rôl y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
- Cadeirio Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
- Rôl y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu o ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Safonau'r Gymraeg
- Cyflwyniad i e-ddysgu
- Iechyd a Diogelwch wrth Weithio'n Unigol

### Dysgu a Datblygu

- Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Rôl a Chyfrifoldebau Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu
- Diogelu (lefel 1)
- Rôl a Chyfrifoldebau Aelodau Pwyllgor yr Ymddiriedolwyr Elusennau
- PREVENT
- Trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Hyfforddiant Cyllideb—Cyllid Cyffredinol
- Hyfforddiant Llesiant
- Hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys
- Hyfforddiant Cyfryngau Cymdeithasol
- Hyfforddiant Cydraddoldeb
- Rhianta Corfforaethol
- Profiad Bws Dementia
- Pwyllgor Rheoli Datblygu - Cynllun Datblygu Lleol
- Pwyllgor Rheoli Datblygu - effaith ffosffadau ar gynllunio

### E-ddysgu

- Cadeirio Cyfarfodydd yn effeithiol
- Arweinyddiaeth Gymunedol a Gwaith Achos
- Rhianta Corfforaethol
- Diogelu Data
- Craffu Effeithiol
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth — Aelodau Etholedig
- Moeseg a Safonau
- Llywodraethu, Archwilio a Rheoli Risg
- Iechyd a Diogelwch
- Diogelwch Gwybodaeth
- Cyflwyniad i Lywodraethu Corfforaethol
- Cyflwyniad i Drwyddedu
- Cyflwyniad i Gynllunio
- Cyllid Llywodraeth Leol
- Cynllunio ar gyfer Pwyllgorau Cynllunio
- Siarad Cyhoeddus a Gweithio gyda'r Cyfryngau
- Diogelu Plant ac Oedolion—Lefel 1
- Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau Cymdeithasol
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol — Aelodau Etholedig

### Gweithdai

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Pwer Hydrogen
- Gweithdai Rheoli Datblygu
- Hunanasesiad ar gyfer Aelodau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
- Trosolwg gan Benaethiaid Gwasanaethau gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach
- Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion
- CLIC
- Cludiant i'r Ysgol
- Polisi Cofrestr Tai
- Gwasanaethau Tân ac Achub
- Casglu Gwastraff
- Gweithdy Asesiad Corfforaethol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# GWEITHGAREDDAU'R PWYLLGOR 2022/23

**Amser cyfarfodydd**

O dan Adran 6 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) mae'n ofynnol bod y Cyngor yn ystyried y Canllawiau Statudol o ran amserau cyfarfodydd a pha mor aml y dylid eu cynnal. Mae'r canllawiau'n berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor llawn a'r Pwyllgorau.

Ym mis Rhagfyr 2022, cytunodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i gynnal arolwg ymhlith yr Aelodau o amser y cyfarfodydd.

Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod Ionawr/Chwefror 2023. Ymatebodd 25 o'r Aelodau (66%) i'r arolwg, a chyflwynwyd adroddiad am y canlyniadau gerbron y Cyngor ym mis Ebrill 2023.

Hefyd, gofynnwyd i'r Aelodau roi sylwadau i gyd-fynd â'u hatebion i'r cwestiynau yn yr arolwg.

Er bod dau gwestiwn yn yr arolwg a oedd yn gofyn i'r Aelodau nodi pa amser y byddai'n well ganddynt i gyfarfodydd ddechrau, daeth i'r amlwg nad oedd modd i'r Aelodau nodi amser dechrau ar gyfer sesiynau'r bore ac amser dechrau ar gyfer sesiynau'r prynhawn.

Dywedodd nifer o'r Aelodau fod cyfrifoldebau gofal plant yn ei gwneud hi'n anodd iddynt ddod i sesiynau yn y prynhawn a oedd yn dechrau am 2.00pm. O ystyried hyn, bu i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd hefyd argymell i'r Cyngor y dylai sesiynau'r prynhawn ddechrau am 1.30pm.

## CYFARFODYDD

Roedd 96% yn medru dod i gyfarfodydd ar ddydd Iau


Roedd 84% yn medru dod i gyfarfodydd ar ddydd Mawrth


Roedd 80% yn medru dod i gyfarfodydd ar ddydd Mercher

Roedd 68% yn medru dod i gyfarfodydd ar ddydd Gwener

Roedd 60% yn medru dod i gyfarfodydd ar ddydd Llun

Roedd yn well gan 52% ddechrau am 9.30am




# GWEITHGAREDDAU'R PWYLLGOR 2022/23


**Amrywiaeth mewn Democratiaeth**
Ar 23 Medi 2021, cymeradwyodd Cyngor Sir Ceredigion ddatganiad 'Amrywiaeth mewn Democratiaeth' Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cytunwyd i wneud y canlynol:

- Rhoi ymrwymiad cyhoeddus clir i wella amrywiaeth mewn democratiaeth
- Arddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, gan hybu'r safonau uchaf o ymddygiad
- Ystyried amrywio amser cychwyn cyfarfod y cyngor a chytuno ar gyfnodau toriad i gefnogi cynghorwyr gydag ymrwymiadau eraill; a
- Nodi Cynllun Gweithredu o weithgareddau cyn etholiadau lleol 2022

Cafodd Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth y Cyngor ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Ar ben hynny, cyhoeddwyd datganiad i'r wasg a chanllaw ar gyfer darpar ymgeiswyr. Roedd y canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth am rôl y Cynghorydd, y gwahanol Bwyllgorau a'r broses enwebu, ac ati. Roedd y canllaw hefyd yn cyfeirio at y cyfraniadau y gall y Cyngor ei wneud i gost gofal ynghyd ag absenoldebau teuluol, ac ati.  Erbyn hyn, mae'r ffaith bod cyfarfodydd hybrid yn cael eu cynnal yn cynnig hyblygrwydd i'r rheiny sydd ag ymrwymiadau o ran gofalu neu waith. Byddwn yn cynnal adolygiad o amseroedd cyfarfodydd y cyngor yn fuan a byddwn yn ymgynghori â'r Cynghorwyr fel y gallant rannu eu barn.

Bu i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd adolygu canlyniadau'r etholiadau ym mis Mai 2022 a'r is-etholiad wedi hynny ym mis Hydref 2022 gan nodi y bu symudiad mawr tuag at y nod o wella amrywiaeth mewn democratiaeth yng Nghyngor Sir Ceredigion.



# GWEITHGAREDDAU'R PWYLLGOR 2022/23

**Protocolau ar gyfer Mynychu o Bell a Darlledu Cyfarfodydd yn Electronig**

Ar 17 Mehefin 2022, adolygodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd y ddogfen brotocol ynghylch Mynychu Cyfarfodydd o Bell a Darlledu Cyfarfodydd yn Electronig.

Roedd y protocol yn ystyried materion megis y weithdrefn ynghylch derbyn gwahoddiadau electronig er mwyn mynychu cyfarfodydd a'r gwaith paratoi cyn cyfarfod ynghyd â'r weithdrefn ynghylch darlledu cyfarfodydd a ffilmio a recordio cyfarfodydd. Hefyd, roedd yn rhoi sylw i'r trefniadau ar gyfer cymryd rhan, datgelu buddiannau, cyfieithu, sicrhau cworwm a phleidleisio.


Cyflwynwyd y protocol yn sgil y canllawiau a oedd wedi'u datblygu mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gynghorau wneud a chyhoeddi trefniadau ynghylch cyfarfodydd hybrid a gweddarlledu trafodaethau. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys y protocolau argyfwng a gyflwynwyd yn sgil pandemig COVID-19 a'r rheolau sy'n newid ynghylch gweithio o gartref, teithio, ac ati.


Bwriad Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yw adolygu'r protocolau yn ystod 2023/24 a bydd hyn yn cynnwys gweithdy i bob Aelod am yr hyn sy'n y mae disgwyl iddynt ei wneud wrth fynychu o bell.

**Cyfarfodydd Hybrid**

Ar 16 Rhagfyr 2022, adolygodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd y data ynghylch y modd y mynychodd y Cynghorwyr holl gyfarfodydd y Cyngor rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2022. Nodwyd bod 64.60% wedi mynychu wyneb yn wyneb, bod 21.98% wedi mynychu o bell a bod 13.42% wedi ymddiheuro am na fedrent fod yn bresennol. Nodwyd bod y lefelau presenoldeb lawer yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol.

## PROTOCOLAU AR GYFER MYNYCHU O BELL A DARLLEDU CYFARFODYDD YN ELECTRONIG



# AROLWG ARFARNU’R AELODAU

# GWEITHGAREDDAU’R PWYLLGOR 2022/23

**Arolwg Arfarnu’r Aelodau**

Ym mis Rhagfyr 2022, cymeradwyodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd dempled hunanasesu sef y ’Cynllun Dysgu a Datblygu’. Roedd yr hyn a oedd wedi’i gynnwys yn yr hunanasesiad yn seiliedig ar Fframwaith Datblygu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel y’i mabwysiadwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ac roedd yn rhoi’r cyfle i’r Cynghorwyr nodi eu hanghenion a’u blaenoriaethau o ran hyfforddi.

Mae Adran 7, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud hi’n ofynnol i Awdurdodau Lleol  sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol yn cael eu darparu i'w haelodau a bod adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu'r aelod ar gael i bob aelod o'r awdurdod.

Anfonwyd yr arolwg at bob Aelod ar 1 Chwefror 2023, ac anfonwyd neges atgoffa ar 27 Chwefror 2023.

Ymatebodd 8 Aelod i’r arolwg.  Yn seiliedig ar yr ymatebion a ddaeth i law, ystyriodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn ystod y cyfarfod ar 24 Mawrth  2023 gan nodi’r meysydd yr oedd y Cynghorwyr dan sylw yn dymuno eu datblygu a’u cefnogi ymhellach.

Bu i’r Pwyllgor argymell y dylid anfon neges atgoffa at yr holl Aelodau yn eu hannog i gwblhau’r arolwg gan y byddai hyn yn rhoi darlun cliriach o’r cymorth yr oedd ei angen ac yn cynorthwyo Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd wrth ddatblygu cynlluniau hyfforddi yn y dyfodol.



# GWEITHGAREDDAU'R PWYLLGOR 2022/23

## Arolwg o'r Cymorth a'r Offer sydd ar gael i'r Aelodau

Ym mis Rhagfyr 2022, penderfynodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd roi arolwg i bob Cynghorydd gan ofyn cwestiynau iddynt am eu gofynion.

Anfonwyd yr arolwg atynt ym mis Chwefror 2023, a chafwyd 15 ymateb.

Roedd dau ddiben i'r arolwg. Roedd yn rhoi sylw i allu digidol yr Aelodau ynghyd â'u gofynion technolegol fel y gellid nodi a blaenoriaethu'r hyfforddiant a'r cymorth a roddir iddynt.

Nododd Aelodau'r Pwyllgor eu siom mai dim ond 15 oedd wedi ymateb. Serch hynny, bu iddynt nodi bod sylw ar unwaith wedi'i roi i'r angen am unrhyw gymorth ychwanegol a ofynnwyd amdano.  Er enghraifft, rhoddwyd cymorth iddynt ddefnyddio'r llwyfan e-ddysgu fel y gallent gael mynediad at y cyrsiau hyfforddi ychwanegol a oedd ar gael.

Yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2023, gwnaeth y Pwyllgor ddadansoddi'r ymatebion i'r arolwg gan ystyried yr atebion am allu digidol a gofynion technolegol a nodwyd mai'r brif neges oedd yr angen am 4G pan fyddai'r Aelodau yn gweithio y tu allan i'r swyddfa neu'r cartref a'r angen am ail rif ffôn fel y gellid sicrhau cydbwysedd rhwng y gwaith a bywyd yn y cartref.

Yn ystod y trafodaethau yn y cyfarfodydd hyn, nododd yr Aelodau atebion a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion hyn.

Cytunwyd y byddai'r ddarpariaeth TGCh yn cael ei hadolygu cyn yr etholiad nesaf er mwyn sicrhau bod anghenion y Cynghorwyr yn cael eu diwallu gan ystyried unrhyw ddatblygiadau technolegol yn y dyfodol.

## AROLWG YNGHYLCH Y CYMORTH A'R OFFER TGCh SYDD AR GAEL I'R AELODAU

| Cwestiynau | Ydw / Nac ydw | Angen hyfforddiant ? Oes / Nac oes |
|---|---|---|
| Dwi'n gwybod sut mae cael gafael ar ddogfennau ar wefan y Cyngor fel y Cyfansoddiad a'r Cynllun Datblygu Lleol | | |
| Dwi'n gwybod sut i gael mynediad i Galendr y Cyfarfodydd ac Adroddiadau ar wefan y Cyngor | | |
| Dwi'n gwybod sut i gael mynediad at CLIC ac i wneud ymholiadau | | |
| Dwi'n gwybod sut i gael mynediad at y rhaglenni e-ddysgu sydd ar gael i Aelodau | | |
| Dwi'n gwybod sut i ddefnyddio Zoom a Teams i fynychu cyfarfodydd ac ateb holiaduron | | |
| Dwi'n gwybod sut i drosglwyddo meddalwedd Office 365 i hyd at 5 dyfais arall | | |
| Dwi'n gwybod sut i gael mynediad i'r ap Modern.gov a dewis y cyfarfodydd o ddiddordeb | | |
| Dwi'n gwybod sut i anodi a llyfrnodi dogfennau ar ap Modern.gov | | |
| Dwi'n deall sut y dylid defnyddio data a'i storio o ran GDPR | | |
| Dwi'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, ac dwi'n deall y gofyniad mewn perthynas â GDPR | | |

# GWEITHGAREDDAU'R PWYLLGOR 2022/23

**Arolwg Ymadael wrth i Gynghorwyr roi'r gorau iddi**
Ym mis Mawrth 2023, ystyriodd yr Aelodau ganlyniadau'r Arolwg Ymadael a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022.

Nododd y Pwyllgor fod 26% o Gynghorwyr yng Ngheredigion yn rhoi'r gorau iddi yn 2022. Roedd y ganran hon yn cyd-fynd â'r ganran ar gyfer Cymru gyfan.  Ymddeol oedd y prif reswm a roddwyd dros roi'r gorau iddi.

Nodwyd mai'r ymateb moddol ar gyfer nifer y blynyddoedd a dreuliwyd yn y rôl fel Cynghorydd yw 21-25 mlynedd, ac mai ystod oedran moddol y rheiny a roddodd y gorau iddi oedd 75-84 mlwydd oed.

Roedd nifer yr oriau bob wythnos ar gyfartaledd a dreuliwyd yn cyflawni dyletswyddau'r rôl, gan gynnwys gwaith achos cymunedol, yn cyfateb i 23.4 awr yr wythnos ac roedd yr oriau hyn fel a ganlyn:

9.7 awr yr wythnos yng nghyfarfodydd y Cyngor ac yn paratoi ar eu cyfer;
6.7 awr yr wythnos yn ymwneud â gwaith yn y Ward a gwaith achos;
5.1 awr yr wythnos yn ymwneud â chyrff allanol; a
7.8 awr yr wythnos yn cyflawni dyletswyddau eraill.

Dywedodd rhan fwyaf yr ymatebwyr fod y gefnogaeth i Gynghorwyr o ran TGCh, cymorth a hyfforddiant yn dda. Hefyd, dywedodd y rhan fwyaf fod amser y cyfarfodydd yn dda iawn neu'n dda.

Nododd 10% eu bod mewn cyflogaeth lawn amser, roedd 60% yn hunangyflogedig ac roedd 30% wedi ymddeol.  Dywedodd pawb fod eu cyflogwyr yn gefnogol iawn a nododd y rhan fwyaf y byddent yn argymell rôl y Cynghorydd i eraill.

## AROLWG YMADAEL WRTH I GYNGHORWYR ROI'R GORAU IDDI

**Yr ymateb moddol ar gyfer nifer y blynyddoedd a dreuliwyd yn y rôl fel Cynghorydd yw:**
**21-25 mlynedd**

**Nifer yr oriau bob wythnos ar gyfartaledd a dreuliwyd yn cyflawni dyletswyddau'r rôl:**
**23.4 awr yr wythnos**

**Roedd yr oriau hyn fel a ganlyn:**
**9.7 awr yr wythnos yng nghyfarfodydd y Cyngor ac yn paratoi ar eu cyfer**
**6.7 awr yr wythnos yn ymwneud â gwaith yn y Ward a gwaith achos;**
**5.1 awr yr wythnos yn ymwneud â chyrff allanol**
**7.8 awr yr wythnos yn cyflawni dyletswyddau eraill**

**Byddai 70% yn argymell rôl y Cynghorydd i eraill**

# GWEITHGAREDDAU'R PWYLLGOR 2022/23

**Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

Yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2022-23, ystyriodd y Pwyllgor argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar ddau achlysur.

Digwyddodd hynny am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2022, ychydig yn hwyrach na'r arfer oherwydd yr etholiad ym mis Mai 2022, ac unwaith eto ym mis Mawrth 2023 ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2023-24.


Yn 2022, canolbwyntwyd ar amrywiaeth a chafodd hyn ei hwyluso gan y trefniadau mynychu o bell a oedd yn cynnig ystod ehangach o gyfleoedd i'r Aelodau ddod i'r cyfarfodydd. Nododd yr Aelodau fod mynychu o bell wedi arwain at ostyngiad mawr yn eu costau a'u hôl-troed carbon.

Pwysleisiodd yr Aelodau mor bwysig oedd arwain drwy esiampl gan nodi mai cyfarfodydd hybrid oedd y ffordd ymlaen ac y dylid annog llai o deithio.

Gwnaeth yr Aelodau argymell i'r Cyngor y dylai'r rheini nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor perthnasol neu a wahoddir yn benodol i fod yn bresennol gael eu hannog i ymuno â'r cyfarfodydd o bell, ac y dylai'r Aelodau gysylltu â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ynghylch bod yn bresennol mewn cynadleddau, seminarau, cyfarfodydd y tu allan i'r sir a digwyddiadau hyfforddi, er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn y gyllideb a bod angen mynychu'n bersonol.

Bu i'r Pwyllgor argymell i'r Cyngor y dylid parhau â hyn yn 2023-24.

## ADRODDIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADRODDIAD

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2023 i 2024

Mae'r adroddiad yn pennu amrediad a lefel y taliadau ym mlwyddyn ariannol 2023 i 2024.

Cyhoeddwyd gyntaf: 27 Chwefror 2023

Diweddarwyd ddiwethaf: 27 Chwefror 2023

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0 i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am hawlfraint.

# Y FLWYDDYN NESAF

Ymhlith y meysydd allweddol y bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn eu hystyried yn ystod 2023/24 y mae'r canlynol:

- Monitro'r materion sy'n codi yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;
- Adolygu'r arolwg hunanwerthuso a gynhelir yn flynyddol i bwyso a mesur effeithiolrwydd y trefniadau Trosolwg a Chraffu gan adlewyrchu'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth;
- Adolygu ymgynghoriadau a chanlyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- Adolygu'r rhaglen sefydlu ar gyfer yr holl Aelodau
- Trefnu gweithdy i'r holl Aelodau ynghylch y protocolau ar gyfer mynychu cyfarfodydd hybrid;
- Unrhyw faterion y mae'r Aelodau yn eu codi y mae angen i'r Pwyllgor eu hystyried.

# DOD I'R CYFARFODYDD

**Dod i gyfarfodydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd**
Mae'r Cyngor yn awyddus i weld aelodau o'r cyhoedd yn dod i gyfarfodydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a holl gyfarfodydd eraill y Cyngor, gan gynnwys y Cyngor llawn, y Cabinet, cyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, y Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r Pwyllgor Trwyddedu.

Cynhelir holl fusnes y Cyngor yn gyhoeddus ac eithrio eitemau cyfrinachol. Gall y cyhoedd ymuno â'r cyfarfodydd o bell neu ddod iddynt yn swyddfeydd y Cyngor. Cyhoeddir yr holl bapurau cyhoeddus ar-lein a chânt eu cyhoeddi 3 diwrnod gwaith o flaen llaw: http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/pwyllgorau/

# CYSYLLTU Â NI

Os ydych chi am gael rhagor o wybodaeth ynglyn â Phwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd neu os ydych chi am wneud sylw neu awgrym, cysylltwch â ni:

Y Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA

Rhif Ffôn: 01545 570881
E-bost: democratiaeth@ceredigion.gov.uk

Dilynwch y Cyngor ar Facebook a Twitter

facebook www.facebook.com/CeredigionCC

twitter @CeredigionCC

# Cysylltu â Chyngor Sir Ceredigion


**Trwy'r post:**

Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Dros y ffôn :**

01545 570881


**www.ceredigion.gov.uk**